***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 949 (Cy.135) (C.37)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2011

*Gwnaed* - - - - *23 Mawrth2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 44(3) a (5) o Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

### Diwrnodau penodedig

**2.**—(1) 28 Mawrth 2011 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym o ran Cymru—

(a) adran 15 (dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal ac eraill), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**2**);

(b) adran 19 (cymorth i blant sy'n cael eu lletya);

(c) adran 29 (hysbysu am faterion sy'n ymwneud â phersonau sy'n rhedeg neu'n rheoli cartrefi plant etc), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**3**); a

(ch) adran 42 ac Atodlen 4 (diddymiadau) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol—

(i) diddymu'r darpariaethau yn adran 104 o Ddeddf 1989 a bennir yn yr Atodlen honno, a

(ii) diddymu'r darpariaethau yn adran 21 o Ddeddf 2000(**4**) a bennir yn yr Atodlen honno.

---

(**1**) 2008 p.23.

(**2**) Cafodd adran 15 ei chychwyn yn rhannol gan erthygl 2(ch) o Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2010 (O.S.2010/1329 (Cy.112) (C.81)) ("Gorchymyn Cychwyn Rhif 4").

(**3**) Cafodd adran 29 ei chychwyn yn rhannol gan erthygl 2(i) o Orchymyn Cychwyn Rhif 4.

(**4**) Diffinnir "the 2000 Act" yn adran 41 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 i olygu Deddf Safonau Gofal 2000 (p.14).

(2) 1 Medi 2011 yw'r diwrnod penodedig i adran 20 o'r Ddeddf (aelod dynodedig o'r staff mewn ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol) ddod i rym o ran Cymru, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**5**).

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Mawrth2011

(**5**) Cafodd adran 20 ei chychwyn yn rhannol gan erthygl 2(dd) o Orchymyn Cychwyn Rhif 4.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r chweched Gorchymyn Cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p.23) ("Deddf 2008") sy'n dod â darpariaethau penodedig yn Neddf 2008 i rym o ran Cymru.

Mae erthygl 2(1) o'r Gorchymyn hwn yn darparu mai 28 Mawrth 2011 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau yn y Ddeddf a restrir isod ddod i rym o ran Cymru—

mae erthygl 2(1)(a) yn cychwyn adran 15 o'r Ddeddf (dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal ac eraill), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym; yna caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau bod cynrychiolydd o'r awdurdod yn ymweld â phlant sy'n derbyn gofal, a phlant eraill a all fod wedi derbyn gofal yn y gorffennol, mewn amgylchiadau rhagnodedig;

mae erthygl 2(1)(b) yn cychwyn adran 19 o'r Ddeddf (cymorth i blant sy'n cael eu lletya), a fydd yn estyn rhwymedigaethau awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu cymorth i blant sy'n cael eu lletya (sy'n cael eu diffinio drwy gyfeirio at adrannau 85 ac 86 o Ddeddf Plant 1989);

mae erthygl 2(1)(c) yn cychwyn adran 29 o'r Ddeddf (hysbysu am faterion sy'n ymwneud â phersonau sy'n rhedeg neu'n rheoli cartrefi plant etc), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, er mwyn mewnosod adran 30A newydd yn Neddf Safonau Gofal 2000. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hysbysu pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr pan fo camau gorfodi penodol yn cael eu cymryd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000;

mae erthygl 2(1)(ch) yn cychwyn adran 42 o'r Ddeddf ac Atodlen 4 iddi (diddymiadau) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol—

(i) y diddymiadau yn adran 104 o Ddeddf Plant 1989, a

(ii) y diddymiadau yn adran 21 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae erthygl 2(2) o'r Gorchymyn hwn yn darparu mai 1 Medi 2011 yw'r diwrnod penodedig i adran 20 o'r Ddeddf ddod i rym o ran Cymru (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym). Bydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ddynodi aelod o'r staff i fod yn un sy'n gyfrifol dros hybu cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal ac sy'n ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol (diffinnir ysgol a gynhelir ("maintained school") a disgybl cofrestredig ("registered pupil") yn eu tro yn Neddfau Addysg 2002 a 1996).

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dygwyd darpariaethau canlynol Deddf 2008 i rym o ran Cymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 8(1) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 8(2) (yn rhannol) a pharagraff 4 o Atodlen 1 | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 8(3) ac Atodlen 2 | 31 Mawrth 2010 | 2010/749 (Cy.77) (C.51) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 10(1) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 15 (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 16(1) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 20(3) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 21(2) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 21 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 18 Mawrth 2011 | 2011/824 (Cy.123) (C.32) |
| Adran 22(3) a (5) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 23(1) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 25(4) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 27 | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 28 | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 29 (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 30 | 6 Ebrill 2009 | 2009/728 (Cy.64) (C.47) |
| Adran 33 | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 34 | 31 Mawrth 2010 | 2010/749 (Cy.77) (C.51) |
| Adran 35 | 6 Ebrill 2009 | 2009/728 (Cy.64) (C.47) |
| Adran 36 | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 37 | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 38 | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 42 ac Atodlen 4 i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 45(a) o Ddeddf Plant 1989 | 6 Ebrill 2009 | 2009/728 (Cy.64) (C.47) |
| Adran 42 ac Atodlen 4 i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 12(5) a (6) a diddymu'n rhannol adran 91(10), o Ddeddf Plant 1989 | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Atodlen 4 i'r graddau y mae yn ymwneud â diddymu adran 12 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 | 31 Mawrth 2010 | 2010/749 (Cy.77) (C.51) |

Dygwyd y darpariaethau canlynol i rym o ran Cymru a Lloegr gan Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn;

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 17 | 1 Ebrill 2011* | 2010/2981 (C.131) |
| Adran 18 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2010 | 2009/3354 (C.154) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 18 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2011* | 2010/2981 (C.131) |
| Adran 31 | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 (C.11) |
| Adran 32 | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 (C.11) |

Dygwyd amrywiol ddarpariaethau yn Neddf 2008 i rym o ran Lloegr gan y Gorchmynion Cychwyn canlynol a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

- O.S. 2009/ 268 (C.11)
- O.S. 2009/323 (C.15)
- O.S. 2009/2273 (C.99)
- O.S. 2009/3354 (C.154)
- O.S. 2010/2714 (C.126)
- O.S. 2010/2981 (C.131)(**6**)*

Gweler hefyd adran 44(1) a (2) o Ddeddf 2008 am y darpariaethau a ddaeth i rym ar 13 Tachwedd 2008 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol) .

(**6**) mae * yn dynodi nad yw'r Gorchymyn mewn grym ar yr adeg y gwneir y Gorchymyn hwn.